**DISGRIFIAD SWYDD**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd :** | **Uwch Ddarlithydd yn y Gyfraith** |
| **Ysgol:** | **Ysgol Reoli Caerdydd** |
| **Lleoliad:** | **Campws Llandaf** |
| **Gradd:** | **8A/B** |
| **Cyflog:** | **£51,283 - £59,421 y flwyddyn** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos** |
| **Deiliadaeth:** | **Parhaol** |

**Crynodeb Rôl :**

Mae Ysgol Reoli Caerdydd yn un o bum ysgol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Wedi'n lleoli mewn cyfleuster o'r radd flaenaf ger canol y brifddinas rydym yn cynnig ystod eang o raglenni ar lefel israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r Gyfraith yn rhan o'r Ysgol ac mae hon yn swydd allweddol a fydd yn cyfrannu at uchelgeisiau Cynllun Strategol y Brifysgol (Strategaeth 2030).

Mae Adran Busnes, Rheoli a'r Gyfraith Ysgol Reoli Caerdydd yn chwilio i benodi Uwch Ddarlithydd yn y Gyfraith.

Mae'r Adran yn cynnal nifer o Raglenni Cyfraith hynod lwyddiannus, megis y LLB (Anrh), BA (Anrh) Cyfraith a Throseddeg, BA (Anrh) Cyfraith Fusnes a Rheoli a llwybr Sylfaen mewn Astudiaethau Cyfreithiol. Yn 2024, fe wnaethom agor Clinig Cyfraith Entrepreneuraidd YRC, lle mae myfyrwyr yn rhoi cyngor a chymorth cyfreithiol dan oruchwyliaeth staff profiadol. Mae ein haddysgu yn pwysleisio datblygiad personol a sgiliau, gyda ffocws ar gyflogadwyedd. Ein nod yw gosod y gyfraith yn ei chyd-destun cymdeithasol-gyfreithiol er mwyn gwella dealltwriaeth o'i heffaith gymdeithasol a datblygu sgiliau dadansoddol, meddwl beirniadol a datrys problemau ar gyfer ein holl raddedigion.

Bydd deiliad y rôl hon yn cyfrannu'n weithredol at addysgu amrywiaeth o fodiwlau perthnasol ar lefel israddedig a bydd ganddo ddiddordebau addysgu ac ymchwil ym meysydd:

- Cyfraith Gyfansoddiadol
- Cyfraith Weinyddol
- Cyfraith Camweddau
- Datrysiad Anghydfodau Amgen
- Cyfraith Cwmnïau a Masnachol

- Ieuenctid, Anghydraddoldeb a Throseddu
- Cyfraith Teulu
- Mynediad at Gyfiawnder
- Cosb a Chyfiawnder
- Sgiliau Cyfreithiol a Phroffesiynol

Bydd gan ddeiliad y rôl hanes gadarn o ymchwil o ansawdd uchel a bydd yn gweithio gyda'r Grŵp Maes Cyfraith i ddarparu addysgu ysbrydoledig a datblygu diddordebau ymchwil.

## PROFFIL RÔL

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

- Cyflwyno addysgu ysbrydoledig i fyfyrwyr a sicrhau bod y modiwlau a ddysgir yn gyfredol.
- Sefydlu rhwydwaith allanol i gynnig cyfleoedd ymgysylltu i fyfyrwyr.
- Cymorth wrth ddylunio, datblygu a chyflwyno amrywiaeth o fodiwlau ar draws ein darpariaeth Gyfraith ar wahanol lefelau.
- Arwain neu gefnogi ymchwil gan gynnwys goruchwylio myfyrwyr ymchwil ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig.

**Cymorth addysgu a dysgu**

- Cefnogi dylunio, datblygu a chyflwyno amrywiaeth o raglenni astudio (weithiau ar gyfer cyrsiau cwbl newydd) ar wahanol lefelau.
- Adolygu cynnwys a deunyddiau'r cwrs yn rheolaidd, gan ddiweddaru pan fo angen.
- Datblygu a chymhwyso technegau a deunyddiau addysgu priodol sy'n creu diddordeb, dealltwriaeth a brwdfrydedd ymhlith myfyrwyr.
- Sicrhau cyrsiau sy’n cael eu cynllunio a’u cyflwyno yn cydymffurfio â safonau a rheoliadau ansawdd y brifysgol a'r adran.

**Ymchwil ac ysgolheictod**

- Arwain y gwaith o ddylunio a chynhyrchu cyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid a/neu allbynnau ymarferwyr, a/neu ledaenu canfyddiadau ymchwil gan ddefnyddio cyfryngau priodol eraill.
- Gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau academaidd a/neu ymarferwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol neu arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill.
- Cymhwyso gwybodaeth a gafwyd o ymchwil ac arloesedd yn ogystal ag ysgolheictod i ddysgu ac addysgu, a gweithgareddau allanol priodol
- Rheoli cyflawni prosiectau ymchwil unigol a/neu gydweithredol ar amser ac o fewn y gyllideb.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid prifysgol i nodi ffynonellau cyllid ymchwil ac arwain y broses o sicrhau arian.

**Cyfathrebu**

- Lledaenu syniadau cysyniadol a chymhleth i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.

**Cyswllt a rhwydweithio**

- Arwain a datblygu rhwydweithiau mewnol er enghraifft drwy gadeirio a chymryd rhan mewn pwyllgorau Ysgol a Sefydliadol.

- Arwain a datblygu rhwydweithiau allanol er enghraifft gydag arholwyr ac aseswyr allanol.
- Datblygu cysylltiadau â chysylltiadau allanol fel cyrff addysgol eraill, cyflogwyr a chyrff proffesiynol i feithrin cydweithio.

**Rheoli pobl**
- Darparu arweinyddiaeth academaidd i'r rhai sy'n gweithio o fewn meysydd rhaglen, fel arweinydd cwrs neu gyfwerth, trwy er enghraifft gydlynu gwaith eraill i sicrhau bod cyrsiau'n cael eu cyflwyno'n effeithiol neu drefnu gwaith tîm trwy gytuno ar amcanion a chynlluniau gwaith gan gyfeirio at y Llawlyfr Academaidd.
- Cyfrannu at ddatblygiad timau ac unigolion.
- Gweithredu fel mentor personol i gyfoedion a chydweithwyr.

**Gwaith tîm**
- Arwain timau o fewn meysydd cyfrifoldeb.
- Helpu i sicrhau bod timau o fewn yr adran yn cydweithio.
- Cymryd rhan i helpu i ddatrys gwrthdaro o fewn a rhwng timau.

**Gofal bugeiliol**
- Yn gyfrifol am ddelio â materion a gyfeiriwyd atynt ar gyfer myfyrwyr o fewn eu rhaglenni addysgol eu hunain.
- Darparu cefnogaeth rheng flaen i gydweithwyr, gan eu cyfeirio at ffynonellau cymorth pellach os oes angen.

**Menter, datrys problemau agwneud penderfyniadau**
- Datrys problemau sy'n effeithio ar gyflwyno cyrsiau o fewn eich rhaglen addysgol eich hun ac yn unol â'r rheoliadau.
- Gwneud penderfyniadau ynghylch agweddau gweithredol eich rhaglen addysgol eich hun.
- Cyfrannu at benderfyniadau sydd ag effaith ar raglenni cysylltiedig eraill.
- Rhoi cyngor ar faterion megis sicrhau cydbwysedd digonol o boblogaeth myfyrwyr, penodiadau a materion myfyrwyr a materion perfformiad eraill.
- Cadw golwg ar arferion proffesiynol diweddaraf a gweld cyfleoedd ar gyfer datblygiad strategol cyrsiau newydd neu feysydd gweithgaredd priodol a chyfrannu at ddatblygu syniadau o'r fath.

**Cynllunio a rheoli adnoddau**
- Yn gyfrifol am gyflwyno eich rhaglenni addysgol eich hun.
- Cyfrannu drwy'r timau rydych chi'n aelod ohonynt at reolaeth gyffredinol yr adran mewn meysydd fel rheoli cyllideb a chynllunio busnes.
- Bod yn rhan o gynllunio strategol ar lefel adrannol drwy amrywiol lwybrau a chyfrannu at brosesau cynllunio strategol y Sefydliad.
- Cynllunio a chyflwyno rhaglenni ymchwil, ymgynghoriaeth neu raglenni tebyg o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael.
- Cyfrannu at reoli ansawdd, archwilio ac asesiadau allanol eraill.

**Gofynion synhwyraidd, corfforol ac emosiynol.**

- Cydbwyso pwysau gofynion addysgu, ymchwil a gweinyddol a therfynau amser cystadleuol.

**Amgylchedd gwaith**

- Yn dibynnu ar y maes gwaith (e.e. labordai, gweithdai a stiwdios) efallai y disgwylir i chi gymryd cyfrifoldeb am gynnal asesiadau risg a lleihau peryglon.

**Arbenigedd**

- Gofynnol i fod yn awdurdod cydnabyddedig yn allanol yn y maes pwnc.
- Dealltwriaeth fanwl o'ch arbenigedd eich hun i alluogi datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd o fewn y maes, neu drwy gymhwyso.

**Hysbysiad Safonol**

**Darperir y canllawiau hyn i'ch cynorthwyo i gyflawni eich contract. Mae'r brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Gwneir unrhyw newidiadau ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd. Nid yw'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau i fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae'n debygol y bydd tasgau technegol cysylltiedig eraill yn cael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell.**

**Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Gwasanaethau Pobl ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.**

## MANYLEB PERSON

Swydd: Uwch Ddarlithydd yn y Gyfraith

Uned/Ysgol: Ysgol Reoli Caerdydd

*Allwedd

Ff – Ffurflen gais
C - Cyflweliad
P - Prawf

| FFACTORAU | MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL | ASESIR GAN | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ff* | C* | P* |
| **Addysg a Cymwysterau (Hanfodol)** | Cymhwyster Meistr (LLM/MA/MRes) neu gymhwyster cyfatebol mewn Cyfraith neu Droseddeg/Cyfiawnder Troseddol neu ddisgyblaeth gysylltiedig. | ✓ | | |
| | Aelodaeth o gorff proffesiynol perthnasol. | ✓ | | |
| | Y gallu i gyflawni Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt (cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ac yn bendant o fewn tair blynedd i ddechrau cyflogaeth). | ✓ | | |
| **Addysg a Chymwysterau (Dymunol)** | Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch.<br><br>Cymhwyster lefel doethuriaeth. | ✓ | | |
| **Gwybodaeth (Hanfodol)** | Gwybodaeth fanwl am bwnc arbenigol a maes proffesiynol. | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Dealltwriaeth fanwl o bedagogeg | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Dealltwriaeth fanwl o ymchwil/menter a gweithgaredd ysgolheigaidd. | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Gwybodaeth (Dymunol)** | Cydnabyddiaeth genedlaethol/rhyngwladol mewn pwnc arbenigol a maes proffesiynol. | ✓ | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r rôl (Hanfodol)** | Y gallu i ddylunio, datblygu a chyflwyno ystod o fodiwlau ar wahanol lefelau. | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Y gallu i adolygu dyluniad modiwlau/rhaglenni yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau ansawdd a rheoliadau academaidd ac i wneud newidiadau lle bo'n briodol. | | ✓ | |
| | Y gallu i gyfrannu at gyflawniad Cynllun Datblygu'r Ysgol a phrosesau cynllunio strategol y sefydliad. | | ✓ | |
| | Y gallu i ddatblygu amcanion ymchwil, paratoi cynigion, cynnal ymchwil annibynnol, dyfarnu a chyfrannu at asesu gan gymheiriaid. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad/gwelliant strategol e.e. prosiectau ymchwil, cyrsiau newydd ac ymgynghoriaeth. | | ✓ | |
| | Y gallu i nodi (trwy ddadansoddi gwybodaeth reoli briodol) meysydd sydd angen gwella perfformiad e.e. niferoedd myfyrwyr, boddhad myfyrwyr. | | ✓ | |
| | Y gallu i gymryd cyfrifoldeb am sawl maes allweddol megis Cadeirio a chymryd rhan mewn pwyllgorau Ysgol a Sefydliadol, gan arwain prosiectau. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i gyfleu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amrywiaeth o ffyrdd – cyflwyniadau neu arddangosfeydd mewn cynadleddau cenedlaethol neu ryngwladol, adroddiadau ar ganfyddiadau, erthyglau cyfnodolion ac ati i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i arwain a chyfrannu at ddatblygiad timau er mwyn sicrhau perthnasoedd gwaith effeithiol a chynhyrchiol. | | ✓ | |
| | Y gallu i arwain/datblygu/gweithio ar y cyd â nifer o rwydweithiau mewnol ac allanol, e.e. cymdeithasau proffesiynol, arholwyr allanol. | | ✓ | |
| **Sgiliau a Galluoedd Yn ymwneud â'r rôl (Dymunol)** | Y gallu i oruchwylio ymgeiswyr ar gyfer ymchwil graddau. | ✓ | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Profiad â Thâl/Di-dâl (Hanfodol)** | Profiad llwyddiannus o addysgu/ymarfer proffesiynol AU neu gyfwerth a chymhwysedd profedig i addysgu egwyddorion ymddygiad proffesiynol cyfreithiol ar raglenni cysylltiedig.<br><br>Profiad o ddarparu arweinyddiaeth academaidd a chefnogaeth/mentora rheng gyntaf i gydweithwyr eraill.<br><br>Profiad o ymwneud ag ymchwil addysgegopl ac addysgwyr a thystiolaeth gysylltiedig o sicrhau cyllid ymchwil.<br><br>Profiad o gyfrannu at ddatblygu strategaethau academaidd er enghraifft, ymchwil a menter, addysgu a dysgu.<br><br>Profiad o reoli perfformiad drwy osod, monitro ac adolygu amcanion. | ✓<br><br>✓<br><br>✓<br><br>✓<br><br>✓ | ✓<br><br>✓<br><br>✓<br><br>✓<br><br>✓ | ✓ |
| **Profiad â Thâl/Di-dâl (Dymunol)** | | | | |
| **Gofynion Eraill (Hanfodol)** | Y gallu i asesu risg a gweithredu polisi / strategaeth mewn perthynas â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Safonau Ansawdd. | | ✓ | |
| **Gofynion Eraill (Dymunol)** | Ymwybyddiaeth o ryngwladoli a'i weithredu o fewn y cwricwlwm a'r ystafell ddosbarth.<br><br>Tystiolaeth o arloesedd yn yr ystafell<br><br>ddosbarth. | ✓<br><br>✓ | ✓<br><br>✓ | ✓ |
| **Sgiliau Iaith Gymraeg**<br><br>**Gwrando Dymunol** | C1 - Defnyddiwr rhugl<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg. | ✓ | | |
| **Sgiliau Iaith Gymraeg**<br><br>**Darllen Dymunol** | C1 - Defnyddiwr rhugl<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg. | ✓ | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau Iaith Gymraeg**<br><br>**Siarad Dymunol** | C1 - Defnyddiwr rhugl<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg. | ✓ | | |
| **Sgiliau Iaith Gymraeg**<br><br>**Ysgrifennu Dymunol** | C1 - Defnyddiwr rhugl<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg. | ✓ | | |